

# Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Yn cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

Cyfres Polisiâu Enghreifftiol



## 9. Polisi recriwtio cyn-droseddwyr enghreifftiol

- Mae [Enw'r Mudiad] wedi ymrwymo i drin ei staff yn deg ac felly hefyd staff arfaethedig neu ddefnyddwyr ei wasanaethau, o ran hil, rhywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, cyfrifoldeb dros ddibynyddion, oed, anabledd corfforol/meddyliol neu gefndir o droseddu.
- Mae [Enw'r Mudiad] yn gyson yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb sydd â'r cymysgedd addas o dalent, sgiliau a photensial, ac yn croesawu ceisiadau gan ystod eang o ymgeiswyr, gan gynnwys y rheini sydd â chofnodion troseddol. Rydym yn dewis ymgeiswyr i'w cyfweld yn seiliedig ar eu sgiliau, eu cymwysterau a'u profiad.
- Fel mudiad sy'n asesu addasrwydd ymgeiswyr ar gyfer swyddi sy'n cael eu cynnwys yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr (Eithriadau) 1974 drwy wirio cofnodion troseddol a broseswyd drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG), mae ein mudiad yn cydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymarfer ac yn ymrwymo i drin pob ymgeisydd am swydd yn deg.
- **Gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed:** byddwn yn holi unigolyn am hanes llawn ei gofnod troseddol\* pan ellir gofyn yn gyfreithlon am dystysgrif GDG ar lefel fanylach (sydd hefyd yn cynnwys gwirio rhestrau Gwahardd y GDG os yw'r gwaith yn weithgaredd rheoledig).
- Pan ofynnir yn gyfreithlon am dystysgrif GDG (pan fo'r rôl yn un sydd wedi'i chynnwys yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 fel y diwygiad) a phan fo'n briodol Rheoliadau Deddf yr Heddlu (fel y diwygiad), ni all [Enw'r Mudiad] ond holi unigolyn am gollfarnau a rhybuddion sydd heb eu \*\*gwarchod (yn amodol ar hidlo). Ym mhob achos arall, pan na allwn ofyn am wiriad GDG lefel uwch, byddwn yn gofyn i ymgeisydd ddatgan unrhyw gollfarnau sydd heb ddarod.
- Ni fyddwn ond yn cynnal gwiriad GDG ar ôl i asesiad risg trylwyr ddangos bod gwiriad yn gymesur ac yn berthnasol i'r rôl dan sylw, a phan fo'r amodau i fod yn gymwys am wiriad wedi'u bodloni.
- Rydym yn ymrwymo i beidio â gwahaniaethu yn annheg yn erbyn unrhyw un yr ydym wedi gofyn iddynt gael gwiriad cofnod troseddol ar sail collfarn neu

wybodaeth arall a ddatgelir ac mae'r polisi hwn ar gael i bob ymgeisydd GDG ar ddechrau'r broses recriwtio. Byddwn yn sicrhau bod pob ymgeisydd y gofynnir iddynt gael gwiriad GDG yn ymwybodol o fodolaeth Cod Ymarfer y GDG; bydd copi ohono ar gael pan wneir cais amdano.

- Ar gyfer y rolau hynny lle canfyddir bod angen gwirio cofnodion troseddol, bydd yr holl ffurflenni cais, hysbysebion y swydd a chyfarwyddiadau recriwtio yn cynnwys datganiad yn dweud y bydd angen i ymgeisydd gael gwiriad GDG ar y lefel briodol pe bai'r rôl yn cael ei chynnig i'r unigolyn.
- Yn y cyfweiliad, neu mewn trafodaeth ar wahân, byddwn yn sicrhau y cynhelir trafodaeth agored a chymedrol ar unrhyw droseddau neu fater arall a all fod yn berthnasol i'r rôl. Gallai methiant i ddatgelu gwybodaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r rôl yr ymgeisir amdani arwain at dynnu'r cynnig am gyflogaeth yn ôl.
- Nid ydym ond yn gofyn i unigolyn ddarparu manylion colffarnau a rhybuddion y mae gan ein mudiad hawl i wybod amdanynt. Rydym yn ymrwymo i drafod unrhyw fater a ddatgelir ar dystysgrif GDG â'r unigolyn sy'n ymgeisio am y rôl cyn tynnu cynnig amodol am gyflogaeth yn ôl.
- Byddwn yn sicrhau bod pawb yn ein mudiad sy'n rhan o'r broses recriwtio wedi'u hyfforddi'n addas i adnabod ac asesu perthnasedd ac amgylchiadau troseddau, ac wedi cael arweiniad a hyfforddiant priodol ar y ddeddfwriaeth berthnasol yn ymwneud â chyflogi cyn-droseddwyr, e.e. Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974.

## **Gwybodaeth gynorthwyol**

### **Adsefydlu Troseddwyr**

\*O dan y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr, ar ôl i gyfnod penodol o amser basio (sy'n amrywio yn ôl y ddeddfryd neu'r penderfyniad a gafwyd), mae rhybuddion a cholffarnau'n cael eu hystyried 'wedi'u disbyddu'. Unwaith mae rhybudd neu gollfarn wedi'i ddisbyddu, mae unigolyn yn cael ei drin fel pe bai wedi'i adsefydlu o ran y drosedd honno, ac nid oes raid iddo ei datgan ar gyfer y rhan fwyaf o ddibenion, er enghraifft, wrth ymgeisio am swydd neu yswiriant.

\*\* Ar 29 Mai 2013, daeth \*\*deddfwriaeth i rym sy'n golygu na fydd yn rhaid datgelu rhai hen a mân rybuddiadau a cholffarnau.

- Ar ben hynny ni fydd cyflogwyr yn gallu ystyried rhai hen a mân rybuddiadau a cholffarnau wrth wneud penderfyniadau.
- Bydd holl rybuddiadau a cholffarnau am droseddau treisgar a rhywiol difrifol penodedig a throseddau eraill penodedig sy'n berthnasol i swyddi yn ymwneud â diogelu plant ac oedolion bregus, yn parhau i fod yn destun

datgelu. Ar ben hynny, bydd yr holl gollfarnau sy'n arwain at ddeddfryd o garchar, yn ohriedig neu beidio, yn parhau i fod yn destun datgelu, ac felly hefyd unrhyw gollfarn lle gwelir bod gan unigolyn fwy nag un gollfarn wedi ei chofnodi.

- Gallwch gyfeirio ymgeiswyr hefyd i'r canllaw a'r meini prawf ar ein gwefan sy'n egluro'r gwaith o hidlo hen a mân rybuddiadau a cholffarnau sydd bellach wedi eu 'diogelu' ac nid felly'n destun datgelu i gyflogwyr

Gallwch hefyd gyfeirio ymgeiswyr at yr arweiniad a'r meini prawf ar wefan y GDG sy'n egluro'r broses o hidlo hen rybuddion a cholffarnau a rhai bach sydd bellach wedi'u 'gwarchod' ac felly sydd ddim yn cael eu datgelu i gyflogwyr. Ceir wybodaeth yma hefyd am ba fath o waith a swyddi sy'n gymwys am wiriad GDG

[www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service](http://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service)

//[www.unlock.org.uk/main](http://www.unlock.org.uk/main) i gael cyngor pellach ar y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr a cholffarnau

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**

*Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH*

**Ffôn:** 0800 2888 329 [help@wcva.org.uk](mailto:help@wcva.org.uk)

**Ffacs:** 029 2043 1701 [www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)

Cynhyrwyd gan WCVA, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

**Diwygiwyd Mehefin 2014**



Ffôn: 0800 2888 329

[www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)